



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Lliniaru effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU



Hydref 2015

Lliniaru effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU

Cyflwyniad

1. Yn ystod tymor y Llywodraeth hon, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddiwygio Lles wedi ystyried ystod eang o gamau gweithredu, y gellid bod angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd mewn ymateb i ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU, yn amrywio o benderfyniadau polisi sy'n ofynnol mewn ymateb uniongyrchol neu gamau anuniongyrchol i fynd i'r afael â chanlyniadau posibl.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu camau lliniaru penodol sydd wedi cefnogi:
 - 307,000 o aelwydydd drwy gynnal eu hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor (am gost flynyddol o £22 miliwn) ym mlwyddyn 2014-15, 2015-16 a 2016-17;
 - 774 yn ychwanegol o gartrefi un i ddwy ystafell wely am gost unwaith ac am byth o £40 miliwn rhwng 2013 a 2016;
 - cynorthwywyd 1,141 o bobl drwy ychwanegiad gan Lywodraeth Cymru at Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn (£1.3 miliwn yn 2013-14);
 - cynorthwywyd 60,000 o unigolion i fynd ar-lein yn ystod chwe blynedd y rhaglen Cymunedau 2.0;
 - cynorthwywyd 42,500 o bobl hyd yma gyda'u ceisiadau am gyngor a gwybodaeth drwy fuddsoddi mewn Gwasanaethau Cyngori Rheng Flaen; ac
 - cynorthwywyd 70,000 o bobl hyd yma drwy Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru.

Dadansoddiad o Gostau a Manteision lliniaru effaith lawn y meini prawf maint ar gyfer budd-dal tai yng Nghymru

3. Fe wnaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol gomisiynu rhaglen ymchwil gynhwysfawr i asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru ac mae pob un o'r adroddiadau hyn wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru¹. Ymhlith diwygiadau lles eraill, mae'r gwaith ymchwil wedi ystyried effaith debygol cyflwyno'r meini prawf maint ar gyfer Budd-dal Tai yn y sector tai rhent cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth hon hefyd yn rhoi arwydd o'r costau a'r manteision y gellid eu cael pe byddai Llywodraeth Cymru yn lliniaru effaith lawn y polisi drwy gynyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Mae **Atodiad 1** yn crynhoi'r dadansoddiad hwn o'r costau a'r manteision.

¹ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/analysing-reforms/?lang=en>
<http://gov.wales/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/analysing-reforms/?lang=cy>

Camau Lliniaru

4. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod lliniaru effaith diwygiadau lles yn un elfen o'i strategaeth ehangach ar drechu tlodi². Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig arweiniad yn y maes hwn, gan nodi'r angen am weithredu a chyflwyno rhaglen gynlluniedig a chydlynol ar y cyd â sefydliadau rhanddeiliaid i helpu pobl i ymdopi ag effaith y newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud i fudd-daliadau lles.
5. Mae nifer o ymrwymadau wedi'u datgan yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Creu Cymunedau Cryf: Symud ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015, sef:
 - Yn 2015/16 diwygio'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i roi ystyriaeth i'r newidiadau yn yr economi, diwygio lles a gallu darparwyr gwasanaethau i gefnogi pobl a theuluoedd i wneud y mwyaf o'u hincwm.
 - Cynorthwyo gwasanaethau cyngori rheng flaen am ddim ac annibynnol gan ymrwmo £2 filiwn arall i gefnogi'r gwasanaethau hyn yn 2015/16.
 - Rydym wedi cytuno i barhau â'r trefniadau Treth Gyngor presennol a chynnal hawliau am ddwy flynedd arall (2015/16 a 2016/17).
 - Gweithio ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar faterion ieuchyd ehangach i bwysu a mesur cyfleoedd a allai wella trefniadau i liniaru'r effaith ar bobl ag anableddau, gan gyflwyno Taliad Annibyniaeth Bersonol, a'u helpu gyda phroses yr Asesiad Gallu i Weithio ar gyfer ceisiadau am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
 - Darparu cymorth hyfforddi yn ystod 2015/16 ar gyfer staff rheng flaen Awdurdodau Lleol. Bydd hyn yn eu helpu i gefnogi hawlwyrr sy'n agored i niwed yng Nghymru yn well wrth i'r Credyd Cynhwysol barhau i gael ei ymestyn.
 - Drwy gyfrwng Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, cynnwys prosiectau sy'n gwella cyflenwad ac ansawdd tai fforddiadwy a chefnogi'r rheini y mae diwygiadau lles yn effeithio arnynt, yn enwedig y meini prawf maint ar gyfer Budd-dal Tai, drwy ddarparu eiddo un a dwy ystafell wely ychwanegol.
6. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol wedi comisiynu ymchwil ychwanegol yn ddiweddar i asesu effaith debygol newidiadau pellach Llywodraeth y DU i fudd-daliadau lles. Cafodd yr adroddiad ymchwil diweddaraf ei gyhoeddi ar 18 Medi 2015 ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd

² <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150327-child-poverty-strategy-walesv2-cy.pdf>
<http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150701-tackling-poverty-action-plan-2015-cy.pdf>

canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn a'r deialog parhaus gyda'n sefydliadau partner lleol a chenedlaethol yn llywio camau gweithredu pellach i helpu pobl i ymdopi ag effeithiau diwygiadau lles pellach.

Atodiad 1 – Dadansoddiad o gostau a manteision lliniaru effaith lawn y meini prawf maint ar gyfer budd-dal tai yng Nghymru

Mae ein gwaith ymchwil wedi ystyried yr effeithiau tebygol a geir yng Nghymru yn sgil cyflwyno'r meini prawf maint ar gyfer Budd-dal Tai yn y sector tai rhent cymdeithasol ac mae hefyd yn rhoi arwydd o'r costau a'r manteision y gellid eu cael pe byddai Llywodraeth Cymru yn lliniaru effaith lawn y polisi drwy gynyddu taliadau tai yn ôl disgrisiwn. Fodd bynnag, dylai'r wybodaeth hon gael ei gweld yng nghydestun y ffaith nad y darpariaethau tan-feddiannu, o bell ffordd, yw'r unig agwedd ar ddiwygio lles sy'n cael effaith ar bobl yng Nghymru. Er bod Llywodraeth y DU wedi cadw cyfrifoldeb am newidiadau yn y budd-dal tai, fe wnaeth drosglwyddo cyfrifoldeb dros y Gronfa Gymdeithasol Ddewisol a'r Gronfa Byw'n Annibynnol i Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth hefyd ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor a throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynllun newydd i ddarparu Cymorth Treth Gyngor i Lywodraeth Cymru ynghyd â gostyngiad o 10 y cant yn y cyllid. Roedd yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i asesu a rhoi sylw i effaith y cynlluniau hynny a oedd wedi dod yn gyfrifoldeb uniongyrchol iddi.

Mae data sydd ar gael yn asesiadau o effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau ei hun³ yn awgrymu y byddai cyfanswm y gost uniongyrchol i Lywodraeth Cymru pe byddai'n unioni'r diffyg ariannol hwn a achoswyd gan y meini prawf maint ar gyfer Budd-dal Tai yn y sector tai rhent cymdeithasol yng Nghymru yn tua £23 - £25 miliwn y flwyddyn. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, byddai 40,000 o hawlwr incwm isel yng Nghymru wedi elwa gan na fyddent wedi wynebu'r golled wythnosol gyfartalog amcangyfrifedig o £11 - £12. Byddai lliniaru hefyd wedi gallu arwain at fanteision ehangach i hawlwr gan fod rhyw gymaint o dystiolaeth yn awgrymu bod y polisi wedi cynyddu tlodi ac wedi cael effaith andwyol ar ieuchyd, lles a pherthnasoedd cymdeithasol⁴.

Mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer mis Mai 2015 yn dangos bod hyn wedi effeithio ar oddeutu 30,500 o hawlwr yng Nghymru, a oedd yn colli oddeutu £14 yr wythnos ar gyfartaledd⁵. Yn seiliedig ar yr ystadegau hyn, byddai ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru yn costio oddeutu £22 miliwn y flwyddyn.

Mae ein hymchwil yn amlygu effaith anghymesur y meini prawf maint ar gyfer Budd-dal Tai yn y sector tai rhent cymdeithasol ar bobl anabl a/neu bobl hŷn⁶. Felly, byddai'r camau lliniaru hyn o fudd yn benodol i'r grwpiau hyn a byddai'n osgoi'r gost

³ Adran Gwaith a Phensiynau (2011) Under-Occupation of Social Housing – Impact assessment; Adran Gwaith a Phensiynau (2012) Housing Benefit: Under-occupation of Social Housing – Impact Assessment.

⁴ Moffatt, S. et al (2015) A qualitative study of the impact of the UK 'bedroom tax'. Journal of Public Health.

⁵ <https://www.gov.uk/government/statistics/number-of-housing-benefit-claimants-and-average-weekly-spare-room-subsidy-amount-withdrawal>

⁶ Llywodraeth Cymru (2013) Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 3, Rhan 1: Effeithiau ar y rheini â nodweddion gwarchodedig

sy'n gysylltiedig ag addasu eiddo i'r hawlwyd hynny sy'n symud, fel yr amlygwyd gan un Landlord Cymdeithasol Cofrestredig⁷.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth⁸ yn awgrymu mai cyfyngedig fu'r ymatebion ymddygiadol o ran symud tŷ. Ni fyddai'r gyfran fechan o hawlwyd yr effeithiwyd arnynt ac sydd wedi symud wedi wynebu'r costau cysylltiedig pe byddai effaith lawn y polisi wedi cael ei lliniaru.

Yn ogystal â bod o fudd i denantiaid, byddai camau lliniarol hefyd o fudd i Awdurdodau Lleol sy'n gweinyddu'r Budd-dal Tai gan na fyddent wedi wynebu rhai o'r costau un-tro (ee addasiadau i TG, deunydd cyhoeddusrwydd, hyfforddiant, ayb) na'r costau ychwanegol parhaus sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r meini prawf maint ar gyfer Budd-dal Tai yn y sector tai rhent cymdeithasol (ee nifer gynyddol o ymholiadau, apeliadau a cheisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn).

Byddai yna hefyd fanteision i landlordiaid. Er enghraifft, mae rhyw gymaint o dystiolaeth⁹ yn awgrymu ers i'r polisi gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2013, fod costau casglu rhent ac ôl-ddyledion wedi cynyddu. Byddai camau lliniaru wedi atal yr effeithiau hynny a briodolir i'r polisi. Byddai gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn elwa gan na fyddai angen iddynt ddarparu cymorth i'r tenantiaid hynny sy'n symud neu'n cronni dyledion o ganlyniad i'r polisi.

Ac ystyried mai un o brif amcanion y polisi yw defnyddio'r tai cymdeithasol sydd ar gael yn fwy effeithiol, byddai unioni'r diffyg mewn taliadau Budd-dal Tai, yn lleihau'r symudedd (er mor gyfyngedig ydyw) sy'n cael ei annog gan y polisi. Felly, ni fyddai manteision cydweddu maint lletyau ag anghenion, i landlordiaid cymdeithasol a rhai tenantiaid sydd mewn tai gorlawn neu ar y rhestr aros, fel yr aseswyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn cael eu gwireddu.

Mae angen i'r dadansoddiad uchod o gostau a manteision gael ei ystyried yng ngoleuni'r sgil-effeithiau ar ein camau lliniaru eraill. Mae angen edrych ar y costau a'r manteision yn y tymor hir gan fod hyn yn golygu ymrwymiad blynyddol parhaus sydd, o ystyried y dystiolaeth o bwy sydd wedi symud ac ansicrwydd ynghylch lefel barhaus yr arian Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, yn annhebygol iawn o leihau llawer dros amser.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud ymrwymiad blynyddol o'r un maint ar Leihau'r Dreth Gyngor (gyda 307,000 o aelwydydd wedi elwa o hyn ar ddiwedd 2014/15) a gyda chyllidebau'n gostwng, byddem wedi gorfod rhoi'r gorau i raglenni eraill er mwyn talu'r gost o liniaru effaith y meini prawf maint ar gyfer Budd-dal Tai yn y sector tai rhent cymdeithasol.

⁷ <http://www.wwha.co.uk/About-Us/News/Pages/Public-money-set-to-be-wasted.aspx>

⁸ Adran Gwaith a Phensiynau (2014) Evaluation of the Removal of the Spare Room Subsidy: interim report

⁹ Joseph Rowntree Foundation (2014) Housing Benefit size criteria: Impacts for social sector tenants and options for reform; Cartrefi Cymunedol Cymru (2013) 'Bedroom tax' will mean 1,000 fewer homes in Wales; Swyddfa Archwilio Cymru (2015) Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru <http://chcymru.org.uk/cy/view-news/bedroom-tax-will-mean-1000-fewer-homes-in-wales/>; <http://www.jrf.org.uk/publications/housing-benefit-size-criteria-impacts-social-sector-tenants>; http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/Welfare_Reform_Welsh_2015.pdf

Byddai cost cyfle i wario oddeutu £20 miliwn y flwyddyn ar unioni'r diffyg i dderbynwyr budd-dal tai wedi bod yn sylweddol. Byddai hyn wedi bod yn £20 miliwn y flwyddyn na fyddai'n cael ei wario ar wasanaethau cynghori annibynnol na buddsoddiadau i atal digartrefedd. Yn 2014-15, fe wnaeth y £2 filiwn ychwanegol o gyllid a roddwyd i wasanaethau cynghori rheng flaen alluogi sefydliadau i ymateb i 30,000 o geisiadau am wybodaeth a chynghor, a sicrhawyd bron i £6.5 miliwn mewn enillion incwm cynyddol i bobl. Fe wnaethom ddarparu tua £3 miliwn i atal digartrefedd drwy'r Gronfa Atal Digartrefedd i gefnogi gwaith Awdurdodau Lleol a phartneriaid rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2015. Dengys data monitro rhwng mis Ebrill 2011 a mis Awst 2014, fod ychydig o dan 5,100 o landlordiaid sector preifat ac oddeutu 7,850 o denantiaid wedi derbyn cynghor a gwasanaethau am y tro cyntaf drwy gyfrwng yr arian hwn¹⁰. At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn dangos bod yna gost ychwanegol o £2,000 o leiaf o safbwynt pob cartref lle na lwyddwyd i atal digartrefedd, a dengys astudiaethau eraill¹¹ y gall y costau ehangach ar y pwrs cyhoeddus gan gynnwys costau iechyd, troseddu a gofal cymdeithasol arwain at gostau ychwanegol o dros £10,000. Byddai cyllid o oddeutu £20 miliwn y flwyddyn wedi cynnwys gostyngiadau mewn rhaglenni eraill sy'n atal digartrefedd ac yn hyrwyddo byw'n annibynnol, gan gynnwys y rheini y mae'r diwygiadau lles fwyaf tebygol o gael effaith andwyol arnynt yn gyffredinol, fel rhieni unigol a phobl anabl.

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2014) Prosiectau awdurdodau lleol i liniaru effaith diwygiadau mewn budd-dal tai gan ddefnyddio cyllid grant digartrefedd: Adroddiad monitro, Hydref 2013-Mawrth 2014 (Cyfnod 5).

¹¹ http://england.shelter.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/297224/VFM_in_housing_options_and_homelessness_services_full_report_Oct_2010.pdf
<http://www.york.ac.uk/media/chp/documents/2015/CostsofHomelessness.pdf>